Cyngor Bwrdeisdref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

**Teitl:** **Arweinydd Tîm Cynorthwyol**

**Lleoliad:** **Gweithiwr ystwyth**

**Cyfarwyddiaeth:** **Gwasanaethau Adfywio a Chymunedol**

**Cyf. y Swydd:** **BG01632**

**Cyflog:** **Gradd 8 (£38,223 – £42,403 y flwyddyn / pro rata)**

**Oriau:** **37 awr yr wythnos**

**Contract:** **Parhaol**

## Crynodeb o'r Swydd

Mae cyfle parhaol wedi codi o fewn Cyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Adfywio a Chymunedol ar gyfer arweinydd tîm cynorthwyol i gynorthwyo gyda'r gwaith o reoli 25 o geginau ysgol a chlybiau brecwast yn effeithiol.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am redeg sefydliad arlwyo'r awdurdod mewn ysgolion yn effeithlon ac yn gosteffeithiol.

## Hysbyseb Lawn

Mae cyfle parhaol wedi codi o fewn Cyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Adfywio a Chymunedol ar gyfer arweinydd tîm cynorthwyol i gynorthwyo gyda'r gwaith o reoli 25 o geginau ysgol a chlybiau brecwast yn effeithiol.

Byddwch yn cyflawni ac yn gyfrifol am ystod gynhwysfawr o ddyletswyddau rheoli sy'n cynnwys rheoli gweithlu mawr o 300 o staff, trefnu prydau brys, diweddaru iTrent, trefnu staff llanw mewn ceginau yn ystod cyfnodau o salwch, caniatâd i fod yn absennol, taflenni amser, recriwtio, archwiliadau cegin, hyfforddiant, y Rhaglen Cogyddion Cynorthwyol dan Hyfforddiant, cyfarfodydd adolygu absenoldeb, asesiadau risg, adroddiadau, gwiriadau iechyd a diogelwch mewn ceginau, cyfarfodydd un-i-un, dyletswyddau gweinyddol, archwiliadau arlwyo ac ati.

Byddwch hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Arlwyo Prydau Ysgol Canolog ac yn cyflenwi pan fydd yr arweinydd tîm a'r arweinydd tîm cynorthwyol yn absennol i sicrhau bod y Gwasanaeth Arlwyo yn rhedeg yn esmwyth.

Bydd gofyn i chi gefnogi blaengynllunio yn y gwasanaeth, a'r flaenoriaeth ar hyn o bryd yw'r fenter prydau ysgol am ddim i bawb. Bydd hyn yn gofyn am gysylltu â chogyddion a gwneud ymweliadau safle i sicrhau bod ceginau wedi'u paratoi'n dda a bod ganddynt lefelau staffio ac offer digonol i fodloni'r galw.

Bydd disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus hefyd fynychu cyfarfodydd gyda phenaethiaid, llywodraethwyr ysgol, rhanddeiliaid allanol a Llywodraeth Cymru, cydweithio ag awdurdodau lleol, ac ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill sydd eu hangen i gefnogi'r Gwasanaeth Arlwyo Prydau Ysgol.

Rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus feddu ar gymhwyster rheoli a diogelwch bwyd Lefel 4 cyfredol, bod ag o leiaf bum mlynedd o brofiad arlwyo ysgol o fewn y diwydiant, a meddu ar drwydded lawn lân gyda'r gallu i ddefnyddio car.

**Cynhelir sgrinio cyn cyflogaeth trylwyr yn ystod y broses recriwtio. Bydd gofyn i ddeiliad y swydd gwblhau cais am ddatgeliad o gofnodion troseddol.**

**Dyddiad Cau:** **16/05/2024 – 12am, hanner nos**

**Dyddiad y Cyfweliad:** **TBC**